Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Cydymaith Ymchwil Ôl-ddoethurol: AMEND - Niwrowahaniaeth Ewropeaidd Modern Cynnar**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol** |
| **Adran/Pwnc:** | **Saesneg** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8. £39,906 - £46,049** |
| **Oriau gwaith:** | **Amser llawn** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Rôl am gyfnod penodol o 24 mis yw hon** |
| **Lleoliad:** | **Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddyletswyddau** | **Yn benodol i'r prosiect:**<br><br>1. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Ymchwilydd, byddwch chi'n diffinio ac yn cynnal eich prosiect ymchwil annibynnol eich hun am ddwy flynedd, gan ateb un neu ddau o'r cwestiynau ymchwil hyn: 'Pa ddealltwriaeth newydd o lenyddiaeth rydym yn ei chael pan fyddwn yn galluogi i'n ffyrdd niwrowahanol o ddarllen ffynnu a datblygu yn hytrach na'u cuddio?' a/neu 'Sut gall testunau modern cynnar ein helpu i ddeall ein profiad personol o niwrowahaniaeth?'<br>2. Bydd gennych oddeutu 75 o gyfranogwyr niwrowahanol ar gyfer cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws. Bydd eich prosiect dwy flynedd o hyd yn arwain at allbwn diriaethol (megis erthygl neu bennod llyfr academaidd).<br>3. Trefnu a chynnal gweithdy fel rhan o gyfres o weithdai'n ymwneud â ffyrdd niwrowahanol o ymgysylltu â llenyddiaeth. Mae gweithdai eraill yn y gyfres yn ymdrin â phynciau fel ymgysylltiadau synhwyraidd â llyfrau, creu llyfrau a brodwaith fel ymwrthedd gorffwysol. Cyd-olygu rhifyn arbennig o erthyglau sy'n deillio o'r gyfres o weithdai hyn gyda'r Prif Ymchwilydd.<br>4. Cwrdd yn rheolaidd â'r Prif Ymchwilydd, Cymdeithion Ymchwil Ôl-ddoethurol eraill, y Gweinyddwr, y Pwyllgor Llywio, a'r Bwrdd Cynghori i gyfrannu at gyflwyno prosiect AMEND yn ei gyfanrwydd, i sicrhau ein bod yn bodloni nodau'r prosiect.<br>5. Cyflwyno ymchwil o'r prosiect mewn cynadleddau neu weithdai academaidd, ac mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â'r cyhoedd (gall hyn gynnwys sgyrsiau neu weithdai i ysgolion ac i grwpiau cymunedol niwrowahanol).<br>6. Diweddaru gwefan prosiect AMEND a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac ysgrifennu postiadau ar gyfer blog. |
| | 7. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol yn y Brifysgol ac â chydweithredwyr priodol gan gynnwys grwpiau cymunedol niwrowahanol.<br>8. Bod yn ymwybodol o ysgoloriaethau sy'n berthnasol i'r prosiect AMEND.<br>9. Ymgymryd â gweithgareddau ar gyfer y ddogfennaeth datblygiad proffesiynol yn unol â pholisi'r Brifysgol.<br>10. Cynnal a gwella cysylltiadau â sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill.<br>11. Glynu wrth brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion llyfrau log y prosiect yn cael eu hanfon at y Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 12. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>13. Ymgymryd â'r rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>14. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>15. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb y Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>1. PhD yn un o ddisgyblaethau'r dyniaethau neu'r gwyddorau cymdeithasol perthnasol.<br>2. Sgiliau ymchwil ansoddol.<br>3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect. |

| | |
|---|---|
| | 4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>5. Agwedd gadarnhaol tuag at niwrowahaniaeth ac ymrwymiad i hygyrchedd.<br>6. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>7. Profiad o drefnu gweithdai hygyrch llwyddiannus.<br>8. Ymchwil neu gyhoeddiadau blaenorol ar niwrowahaniaeth. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Dr Laura Seymour (Prif Ymchwilydd) laura.seymour@abertawe.ac.uk |